Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Drenewydd Gelli-farch

Drenewydd Gelli-farch
Cas-gwent
Sir Fynwy
NP16 6RN

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Drenewydd Gelli-farch

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Drenewydd Gelli-farch |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Fynwy |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 196 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 170 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 22.9%) | 4.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 11.1%) | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 7.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.9% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/11/2022 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 11/03/2019 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 10/03/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Drenewydd Gelli-farch yn ysgol hapus, ofalgar a chynhwysol sy'n ganolog i'w chymuned. Rhoddir blaenoriaeth uchel i les disgyblion yn yr ysgol, ac mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac yn gwybod ble i fynd i gael cymorth, os oes ei angen arnynt. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol a chymdeithasol disgyblion yn effeithiol trwy ei chwricwlwm sydd wedi'i seilio ar werthoedd, ac yn ystod addoli ar y cyd. Mae hyn yn helpu sicrhau bod ymddygiad disgyblion yn rhagorol ar draws yr ysgol, ac maent yn foesgar a chwrtais gyda'i gilydd, gyda staff ac ymwelwyr.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sydd efallai'n cael eu heffeithio gan dlodi, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau holi i alw dysgu blaenorol i gof, cadarnhau dealltwriaeth a llywio cyfeiriad dysgu. Mae hyn yn helpu disgyblion i wella a mireinio cynnwys eu gwaith yn llwyddiannus. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu sy'n herio disgyblion yn ddigonol ac yn eu galluogi i feithrin eu medrau yn raddol ar draws y cwricwlwm.

Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol yn drylwyr. Mae arweinwyr yn meddu ar ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella. Maent yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i hyrwyddo diwylliant o wella addysgu a datblygu annibyniaeth disgyblion ar lefel sy'n briodol i'w hoedran.

Mae llywodraethwyr wedi ymrwymo'n llawn i lwyddiant yr ysgol ac yn defnyddio'u gwybodaeth a'u medrau i gefnogi a herio'r pennaeth yn bwrpasol. Mae'r pennaeth a'r staff wedi meithrin perthnasoedd gwaith agos â rhieni. O ganlyniad, mae ganddynt hyder yn yr ysgol ac yn gwerthfawrogi'r cymorth y mae'r ysgol yn ei roi i'w helpu i gynorthwyo'u plant gartref.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Parhau i wella cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol ar draws y cwricwlwm.

A2. Parhau i wella addysgu i sicrhau bod medrau disgyblion wrth ddysgu'n annibynnol yn datblygu ar lefel sy'n briodol o heriol.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Gynradd Drenewydd Gelli-farch yn ysgol fywiog, ofalgar a chynhwysol, lle mae staff yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda. Mae disgyblion yn eithriadol o falch o'u hysgol ac yn foesgar a chwrtais gyda'i gilydd, gyda staff ac ymwelwyr. Mae gan bron bob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi, agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

### Ciplun: Datblygu gwerthoedd i gefnogi lles

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu gwerthoedd disgyblion ar draws yr ysgol yn gryf. Mae'r ffocws strwythuredig ar werthoedd unigol trwy'r cwricwlwm, gwasanaethau ysgol gyfan a thrafodaethau dosbarth yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio'n ystyrlon ac ystyried safbwyntiau a gwerthoedd pobl eraill yn llwyddiannus. Mae gan bron bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r gwerthoedd hyn ac mae hyn yn helpu sicrhau ymddygiad rhagorol. Mae disgyblion yn teimlo'n hyderus yn archwilio a deall eu hemosiynau eu hunain ac emosiynau pobl eraill, ac yn gwybod sut i reoli eu teimladau. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn siarad yn glir am werth y mis ac yn uniaethu'r rhain â'u hymddygiadau eu hunain ac ymddygiad pobl eraill.

Caiff disgyblion gyfleoedd cadarn i ddatblygu eu dealltwriaeth o ymwybyddiaeth ysbrydol a diwylliannol. Maent yn dysgu am amrywiaeth o grefyddau'r byd ac mae disgyblion hŷn yn dangos dealltwriaeth gadarn o gynhwysiant ac amrywiaeth.

Mae medrau llythrennedd, rhifedd a digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae llawer ohonynt yn siaradwyr hyderus a huawdl. Mae'r ysgol yn creu diwylliant cryf o ddarllen ac mae disgyblion hŷn yn darllen testunau'n rhugl a gyda mwynhad. Mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol, ac erbyn Blwyddyn 3, maent yn dechrau golygu a gwella'u gwaith yn annibynnol. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn dda. Mae arddangosfeydd dwyieithog yn hyrwyddo'r Gymraeg yn effeithiol ar draws yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn frwdfrydig, ac mae disgyblion hŷn yn ateb cwestiynau'n hyderus gan ddefnyddio ystod o frawddegau cymhleth yn gywir.

Mae ymagwedd yr ysgol at ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth fathemategol yn sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol ac yn datblygu i fod yn fathemategwyr medrus sy'n meddu ar ddealltwriaeth gadarn o rif. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau digidol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i gadw gwybodaeth bersonol yn breifat a sut i aros yn ddiogel ar-lein. Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau corfforol a chreadigol yn llwyddiannus trwy ystod eang o weithgareddau dysgu difyr.

Mae arweinwyr a staff yn dechrau datblygu cwricwlwm eang a chytbwys gan ddefnyddio pedair thema drosfwaol, sef lles, cynefin, amrywiaeth a chynaliadwyedd. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn briodol ar draws y cwricwlwm. Megis dechrau datblygu y mae gwaith i sicrhau bod disgyblion yn datblygu a meithrin eu medrau'n raddol wrth iddynt symud trwy'r grwpiau blwyddyn.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn creu amgylcheddau dysgu ysgogol a deniadol sy'n cefnogi addysgu a dysgu yn effeithiol. Maent yn gwneud defnydd da o'r ystafelloedd dosbarth, yr ardaloedd dysgu yn yr awyr agored ac ardaloedd coedwig i atgyfnerthu dysgu yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o staff yn defnyddio holi'n effeithiol i gefnogi, gwirio ac ymestyn dealltwriaeth disgyblion. Maent yn defnyddio trefniadau asesu ac adborth yn briodol, ar y cyfan, ac yn dechrau darparu cyfleoedd i ddisgyblion werthuso'u gwaith nhw a gwaith eu cyfoedion. Yn gyffredinol, maent yn sicrhau gweithgareddau dysgu addas ar gyfer disgyblion mewn dilyniannau o wersi sy'n adeiladu'n briodol ar eu dysgu blaenorol. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu ar draws y cwricwlwm sy'n herio disgyblion yn ddigon da neu'n datblygu eu gallu i ddysgu'n annibynnol. O bryd i'w gilydd, mae'r addysgu wedi'i or-gyfarwyddo, sy'n cyfyngu ar allu disgyblion i ddatblygu i fod yn ddysgwyr dyfeisgar ac annibynnol.

Ceir darpariaeth dda ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae trefniadau priodol i sicrhau bod disgyblion y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt yn cael eu nodi'n gynnar. Mae CydADY yr ysgol yn gweithio'n bwrpasol gyda staff cymorth sydd wedi cael hyfforddiant da i sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol, fel y gwasanaeth seicoleg addysg a'r timau cysylltiadau dysgu, i ddarparu cymorth arbenigol i ddisgyblion, lle mae angen. Mae staff allweddol yn cyfarfod yn rheolaidd â rhieni a disgyblion i adolygu cynnydd a chynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Rhoddir llawer o sylw i bresenoldeb da yn yr ysgol, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau mynychu'r ysgol bob dydd.

Mae disgyblion hŷn, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn datblygu medrau arwain effeithiol. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag asiantaethau allanol a chefnogi agweddau ar wella'r ysgol, fel datblygu polisi'r ysgol ar berthnasoedd newydd.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn darparu cyfeiriad strategol buddiol ac ystyrlon ar gyfer yr ysgol. Maent yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu arweinyddiaeth ar draws yr ysgol, ac yn dosbarthu rolau a chyfrifoldebau yn bwrpasol. Mae gan uwch arweinwyr ddisgwyliadau uchel ac yn eu cyfleu'n effeithiol i staff. Mae prosesau hunanwerthuso yn fanwl a chadarn ac yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn gywir. Mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ansawdd yr addysgu a'r dysgu ac yn cynllunio camau strategol i ysgogi'r gwelliannau angenrheidiol. Maent yn cysylltu dysgu proffesiynol yn llwyddiannus ag agweddau ar waith yr ysgol sydd angen eu gwella. Maent yn darparu cyfleoedd dysgu gwerthfawr i staff weithio gydag ysgolion a sefydliadau eraill. Mae hyn yn helpu athrawon i fireinio'u harfer yn llwyddiannus, sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a dysgu disgyblion.

Mae arweinwyr a staff yn datblygu perthnasoedd cryf â rhieni a'r gymuned. Mae'r pennaeth yn weladwy ac yn cyfathrebu â rhieni yn rheolaidd i'w hysbysu am ddigwyddiadau'r ysgol a chodi ymwybyddiaeth am gyflawniadau a llwyddiannau disgyblion. Mae rhieni'n falch o'r ysgol ac yn gwerthfawrogi ymrwymiad yr ysgol i'w helpu i gynorthwyo'u plant gartref.

Mae llywodraethwyr yr ysgol yn wybodus ac yn gefnogol i'r ysgol. Maent yn dod ag ystod o wybodaeth a phrofiad i'w cyfrifoldebau ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o waith yr ysgol wrth roi blaenoriaethau cenedlaethol ar waith. Maent yn monitro cyllideb yr ysgol yn agos ac yn gwerthuso effaith y cyllid grant yn effeithiol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni / gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion, lle bo’n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/05/2025